**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1395
Ein cyf/Our ref HIDCC/10099/24

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Government.Committee.Business@llyw.cymru

10 Medi 2024

Annwyl Chair,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin at Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio ar y pryd, Julie James AS, ynglŷn â deiseb P-06-1395 sy'n galw am Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent. Mae cyfrifoldeb am y system gynllunio yng Nghymru bellach o fewn portffolio Jayne Bryant, Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio. Fodd bynnag, mae pwnc y ddeiseb yn berthnasol i ran o etholaeth Ysgrifennydd y Cabinet. Felly, ar yr achlysur hwn, trosglwyddwyd y mater imi i ymateb iddo fel Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

Dyma'r eglurhad pellach y gofynnwyd amdano mewn perthynas â'r cwestiynau a godwyd gan y pwyllgor, fel y'u nodwyd yn eich llythyr.

Rwy’n ailadrodd y cyngor a roddwyd ynghynt gan Julie James AS, sef mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn darparu safbwynt clir a chadarn ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Felly, nid ydym yn ystyried bod angen llythyr gan y Prif Swyddog Cynllunio nac ehangu'r canllawiau arfaethedig ar fanteision net ar gyfer bioamrywiaeth fel yr awgrymir gan ddeisebwyr. Mae PCC yn nodi bod datblygiad mewn SoDdGA yn cael ei ystyried yn annerbyniol fel mater o egwyddor, a dylai'r safbwynt polisi hwn lywio unrhyw broses o ddewis safleoedd. Mae'r diffiniad o amgylchiadau eithriadol yn PCC yn gyfyngedig ac mae'n dibynnu ar eu pennu ymlaen llaw drwy gynllun datblygu. Am y rhesymau hyn, nid ystyrir bod y safbwynt polisi ym Mhennod 6 ar SoDdGAau yn gofyn am eglurhad pellach ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu polisi cynllunio cenedlaethol clir a chynhwysfawr ar brosiectau ynni adnewyddadwy ym Mholisïau 17 ac 18 o Gymru’r Dyfodol: Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Bydd y cyfnod adolygu nesaf ar gyfer Cymru'r Dyfodol yn dechrau yn 2026, fel rhan o'r cylch adolygu pum mlynedd ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Lluniwyd Cymru'r Dyfodol drwy raglen helaeth o ymgysylltu, ymgynghori, asesu, casglu tystiolaeth a chraffu. Byddai angen i unrhyw ddiwygiadau posibl a nodwyd fel rhan o'r broses adolygu ddilyn yr un rhaglen helaeth. Wrth benderfynu ar brosiectau ynni adnewyddadwy, dylid ystyried Cymru'r Dyfodol ochr yn ochr â PCC, gyda'r holl agweddau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

perthnasol ar bolisi yn cael eu hystyried yn ystod y broses o wneud penderfyniadau. Gwnaed newidiadau sylweddol i’r Polisi Cynllunio ym mis Hydref 2023 gan gryfhau'r dull polisi mewn perthynas â SoDdGA. Nid ystyrir ei bod yn angenrheidiol felly ar hyn o bryd i fireinio Cymru'r Dyfodol ymhellach.

Diolch unwaith eto am ysgrifennu am y pwnc pwysig hwn. Rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ateb y cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor a'r deisebwyr.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs